

office of the independent adjudicator

# RHAGARWEINIAD I SDA AR GYFER MYFYRWYR

www.oiahe.org.uk

@oiahe

Daeth i rym yn Ionawr 2019

# Cynnwys


3 Rhagarweiniad

4 Ynglŷn â SDA

5 A allaf wneud cwyn i SDA am fy narparydd addysg uwch?

5 A yw yn gwneud gwahaniaeth pa gwrs dwi'n yn ei astudio yn fy narparydd addysg uwch?

5 A allaf gwyno i SDA am rywbeth a ddigwyddodd cyn i fy narparydd ymuno â chynllun SDA?

6 A all rhywun gwyno i SDA ar ran myfyriwr?

6 Pa fath o gwynion all SDA ymdrin â nhw?

7 A oes unrhyw gwynion na all SDA ymdrin â nhw?

8 Beth os ydw i'n mynd at SDA gyda chŵyn am gamwahaniaethu?

8 Sut ydw i'n mynd ati i gwyno i SDA?

9 Pa wybodaeth ddylwn i ei chynnwys gyda'r Ffurflen Gwynion?

9 A oes unrhyw derfynau amser ar gyfer cwyno i SDA?

9 A yw'n costio unrhyw beth i wneud cwyn?

10 Beth sy'n digwydd ar ôl i mi anfon fy Ffurflen Gwynion atoch chi?

10 Sut mae SDA yn adolygu cwynion?

11 Faint o amser fydd yn ei gymryd i ystyried fy nghwyn?

11 Beth allwch chi ei wneud am fy nghwyn?

12 A oes rhaid i ddarparydd gydymffurfio â'ch penderfyniad?

12 A allaf dynnu fy nghwyn yn ôl?

12 A allaf gael help i wneud cwyn?

12 Beth os ydw i'n anfodlon â'r ffordd mae fy nghwyn wedi cael ei drin?

# Rhagarweiniad

Mae Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol er Addysg Uwch (SDA) yn darparu Cynllun annibynnol, tryloyw ar gyfer adolygu cwynion am ddarparwyr addysg uwch unigol.

Mae'r daflen hon yn cynnwys gwybodaeth ac arweiniad am ein proses adolygu ar gyfer myfyrwyr neu eu cynrychiolwyr sydd am gwyno am ddarparydd sy'n aelod o'r Cynllun. Dylid ei darllen ynghyd â'r Rheolau sydd ar gael ar ein gwefan. Yn achos unrhyw anghysondeb rhwng y daflen hon a'r Rheolau, y Rheolau sy'n cael blaenoriaeth.

Cyn i chi wneud cwyn, gwiriwch:

- A yw eich cwyn yn rhywbeth y gall SDA edrych arno?
- Ydych chi wedi cwblhau gweithdrefnau cwynion neu apeliadau mewnol y darparydd?

I wneud cwyn:

- Dylech gwblhau a llofnodi ein Ffurflen Gwynion (neu ticiwch y blwch os ydych chi'n defnyddio'r ffurflen ar-lein ar MyOIA) a'i hanfon atom gyda chopi o'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau.
- Anfonwch eich Ffurflen Gwynion atom ni mewn da bryd.
- Peidiwch ag anfon unrhyw ddogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'ch cwyn atom ni ar hyn o bryd. Byddwn yn gofyn i'r darparydd am gopi o'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cwyn, gan gynnwys copïau o'r holl ddogfennau y mae'r darparydd wedi eu hystyried ac unrhyw gofnod o sut yr aeth y darparydd ati i ystyried eich achos cyn cyrraedd penderfyniad terfynol. Byddwn yn rhannu manylion ein cais am wybodaeth gyda chi, a phan fydd y darparydd wedi anfon yr wybodaeth berthnasol atom, byddwn yn anfon copi atoch ac yn rhoi cyfle i chi roi sylwadau ar yr wybodaeth hon. Os ydych chi'n meddwl bod unrhyw wybodaeth ar goll neu os oes rhywbeth arall rydych chi am i ni ei weld, gallwch ei anfon atom yn ystod y cam hwnnw.

Gallwn ddarparu ein llenyddiaeth mewn sawl gwahanol fformat. Cysylltwch â ni os oes gennych chi unrhyw gwestiwn ynglŷn â hyn neu ein proses gwynion.

enquiries@oiahe.org.uk

0118 959 9813

# Ynglŷn â SDA

Dynodwyd SDA yn weithredwr y Cynllun Cwynion Myfyrwyr yn Lloegr a Chymru dan adran 13 o Ddeddf Addysg Uwch 2004, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2005. Ers hynny, mae Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 wedi ymestyn ystod y darparwyr addysg uwch y mae gofyn iddynt gyfranogi yn y Cynllun. Er mwyn hwylustod, defnyddiwn y termau "darparydd addysg uwch" neu "darparydd" gydol y daflen hon.

Nid ydym yn llys a gall ei ddeilliannau fod yn wahanol i'r rhai a ddyfernir gan lys.

Mae rhestr o'r holl ddarparwyr sy'n cymryd rhan a rhagor o wybodaeth am y Cynllun i'w gweld ar ein gwefan.



## A allaf wneud cwyn i SDA am fy narparydd addysg uwch?

Mae rhestr lawn o ddarparwyr y gallwn ni dderbyn cwynion amdanynt ar gael ar ein gwefan.

Gallwch chi wneud cwyn, os ydych chi:

- yn fyfyriwr, neu wedi bod yn fyfyriwr, yn y darparydd rydych chi'n cwyno amdano; neu
- yn astudio, neu wedi bod yn astudio, ar gwrs sy'n arwain at un o gymwysterau'r.

## A yw yn gwneud gwahaniaeth pa gwrs dwi'n yn ei astudio yn fy narparydd addysg uwch?

Mae Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015 a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 wedi ehangu aelodaeth y Cynllun i gynnwys llawer o Golegau Addysg Bellach a Chweched Dosbarth, darparwyr amgen a darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon Mewn Ysgolion (SCITT). Mae'r term "myfyriwr" yn cynnwys y rheiny sydd dan hyfforddiant a phrentisiaid. Mae SDA yn gallu ystyried cwynion gan fyfyrwyr addysg uwch yn y darparwyr hynny yn unig. Gall myfyrwyr sy'n astudio mewn prifysgol, neu oedd yn astudio yno, wneud cwyn am y brifysgol honno, waeth pa gwrs maen nhw'n ei astudio, neu roedden nhw'n ei astudio.

## A allaf gwyno i SDA am rywbeth a ddigwyddodd cyn i fy narparydd ymuno â chynllun SDA?

Os ydych chi'n gwneud cwyn am rywbeth a ddigwyddodd cyn i'r darparydd ddod yn aelod o'r Cynllun, ni fyddwn yn ystyried y gŵyn. Serch hynny, weithiau bydd cwyn yn ymwneud â rhywbeth a ddigwyddodd ynghynt ac sydd wedi parhau i ddigwydd ar ôl i'r darparydd ddod yn aelod. Mewn achosion o'r fath, mae'r hyn a ddigwyddodd cyn i'r darparydd ddod yn aelod yn debygol o roi gwybodaeth gefndir berthnasol, y byddwn yn ei hystyried wrth roi sylw i'r gŵyn ynglŷn â rhywbeth a ddigwyddodd ar ôl i'r aelodaeth ddechrau.

Mae ein rhestr o aelodau yn dangos y dyddiad y bu i bob darparydd ymuno â'r Cynllun.

# A all rhywun gwyno i SDA ar ran myfyriwr?

Fel arfer, chi yw'r person gorau i ddod â chwyn atom, gan eich bod chi'n deall eich sefyllfa yn well nag unrhyw un arall. Fodd bynnag, gallwch benodi cynrychiolydd, e.e. cynrychiolydd undeb myfyrwyr, drwy gwblhau adran dau o'n Ffurflen Gwynion. Bydd angen i chi sicrhau bod eich cynrychiolydd yn gwybod y cyfan am eich cwyn, eu bod nhw'n barod i'ch cynrychioli a'ch bod yn gallu eu darparu â'r holl wybodaeth angenrheidiol, gan y byddwn yn delio â'ch cynrychiolydd yn unig unwaith y byddwch chi wedi'u penodi.

Mae ein gweithdrefnau yn anffurfiol ac ni ddylai fod angen i chi gael cynrychiolydd cyfreithiol. Am y rheswm hwn, ni fyddwn fel arfer yn argymell y dylai darparydd gyfrannu tuag at eich costau cyfreithiol, hyd yn oed os canfyddir bod Cyfiawnhad am eich achos.

# Pa fath o gwynion all SDA ymdrin â nhw?

Gallwn adolygu cwynion ynglŷn ag unrhyw beth mae darparydd wedi'i wneud neu wedi methu ei wneud. Gall hyn fod yn ymwneud â:

- Rhaglen astudio
- Gwasanaeth a ddarperir gan ddarparydd i fyfyriwr
- Penderfyniad terfynol corff disgyblu neu apêl darparydd

Nid ydym yn llys, a gall ein deilliannau fod yn wahanol i'r rhai a ddyfernir gan lys. Corff adolygu ydyn ni. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ystyried sut y bu'r darparydd yn delio â'ch cwynion/apêl, yn ogystal â'i benderfyniad terfynol. Canolbwynt ein hadolygiad fydd yr hyn a ddigwyddodd cyn y cyflwynwyd y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Nid apêl bellach i'ch darparydd addysg uwch mo'n Cynllun. Rydym yn darparu Cynllun adolygu annibynnol, a'n rôl ni yn bennaf yw ystyried a yw'r darparydd wedi gweithredu ei reoliadau yn gywir, wedi dilyn ei weithdrefnau ac a yw'r deilliant yn rhesymol o dan yr amgylchiadau.

Mae'r cwynion y gallwn roi sylw iddynt yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig, i'r canlynol:

- Amgylchiadau lliniarol
- Apeliadau academaidd
- Camwahaniaethu (ond gweler isod)
- Goruchwyliaeth ymchwil
- Llesiant
- Prosesau cymhwyster i ymarfer
- Anghysondebau gweithdrefnol
- Bwlio ac aflonyddu
- Darpariaeth a chyfleusterau addysgu
- Lleoliadau gwaith
- Llety
- Materion disgyblu - gan gynnwys llên-ladrad

# A oes unrhyw gwynion na all SDA ymdrin â nhw?

Ni allwn roi sylw i gwynion ynghylch:

- Derbyniadau, oni bai bod y sawl sy'n cwyno'n gyn-fyfyriwr yn y darparydd addysg uwch hwnnw sy'n gwneud cais i gael ei ail-dderbyn, a bod y gŵyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'i amser fel myfyriwr.
- Barn academaidd neu ansawdd addysgu.
- Cyflogaeth myfyrwyr.
- Materion sydd wedi cael eu hystyried gan lys, tribiwnlys neu endid Datrys Anghydfod Amgen arall, oni bai eu bod wedi cael eu hatal neu eu gohirio'n ffurfiol.
- Darparydd nad oedd yn aelod o'r Cynllun pan ddigwyddodd yr hyn y cwynir amdano neu sy'n "sefydliad trosiannol".

Gallwn benderfynu peidio ag adolygu cwyn os credwn y gallai ei adolygu niweidio'n ddifrifol ein gallu i gynnal ein prosesau yn effeithiol. Er enghraifft:

- Mae'r gŵyn yn ymwneud â phethau a ddigwyddodd dros gyfnod sylweddol o amser (mwy na thair blynedd) ac mae'n cynnwys nifer fawr o ddogfennau.
- Mae sefydliadau eraill mewn gwell sefyllfa i ymdrin â'r mater: er enghraifft, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y fwy cymwys i ystyried materion sy'n ymwneud â diogelu data.
- Mae achosion eraill ar y gweill o fewn y darparydd addysg uwch neu yn rhywle arall sy'n berthnasol i'r gŵyn. Er enghraifft, mae myfyriwr yn dod â chŵyn atom am apêl academaidd ac mae am gael cyfle arall i ailsefyll arholiad. Mae'r myfyriwr hefyd yn destun achos disgyblu ar wahân, a allai arwain at ei ddiarddel. Os yw'n cael ei ddiarddel, yna ni all fanteisio ar gyfle arall i ailsefyll yr arholiad. Ni fyddai unrhyw ddiben mewn cynnal adolygiad o'r apêl academaidd cyn bod canlyniadau'r achos disgyblu yn hysbys.

## Beth os ydw i'n mynd at SDA gyda chŵyn am gamwahaniaethu?

Wrth ystyried materion sy'n ymwneud â chamwahaniaethu, nid ydym yn gweithredu fel llys. Nid ydym yn ymchwilio nac yn gwneud canfyddiadau cyfreithiol fel y gwna llys. Fodd bynnag, mae'n briodol i ni gyfeirio at y gyfraith a chanllawiau ar gamwahaniaethu i ffurfio barn ynglŷn ag arfer da a phenderfynu a yw'r darparydd wedi gweithredu'n deg. Felly, er enghraifft, efallai y byddwn yn edrych a yw darparydd wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i'r cwestiwn: a yw ei weithdrefnau'n gosod myfyriwr anabl dan anfantais sylweddol? Ac os nad yw, mae'n bosib y byddwn yn argymell ei fod yn gwneud hynny. Serch hynny, ni fyddem yn gwneud canfyddiad bod y darparydd wedi camwahaniaethu yn erbyn y myfyriwr.

Dan Ddeddf Addysg Uwch 2004, caniateir amser ychwanegol i fyfyrwyr sy'n gwneud cwyn i ni am gamwahaniaethu ar sail rhywedd, hil neu anabledd ac sy'n penderfynu cychwyn achos llys, yn ychwanegol i'r terfynau amser a osodir fel arfer gan y llysoedd. Fodd bynnag, dylech gofio y bydd y terfynau amser a bennir gan y llys yn dechrau ar adeg y digwyddiad gwreiddiol.

## Sut ydw i'n mynd ati i gwyno i SDA?

Cyn y gallwch chi gwyno i ni, rhaid i chi yn gyntaf gwblhau gweithdrefnau cwynion ac apeliadau mewnol y darparydd. Unwaith y byddwch chi wedi gwneud hynny, dylai'r darparydd eich cyflwyno â Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Dylai'r llythyr hwn osod allan yn eglur y materion sydd wedi cael eu hystyried, penderfyniad terfynol y darparydd a therfyn amser ar gyfer cyflwyno cwyn i ni.

Unwaith y byddwch chi wedi derbyn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, mae angen i chi anfon Ffurflen Gwynion wedi'i chwblhau a'i **llofnodi** i ni o fewn 12 mis o ddyddiad penderfyniad terfynol y darparydd.

Mewn amgylchiadau eithriadol, efallai y byddwn yn edrych ar gŵyn lle nad yw'r gweithdrefnau cwynion neu apeliadau mewnol wedi cael eu cwblhau.

Gweler ein gwefan am ragor o wybodaeth am wneud cwyn.

## Pa wybodaeth ddylwn i ei chynnwys gyda'r Ffurflen Gwynion?

Dylech hefyd anfon:

- Copi o'r Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau

Wrth gwblhau ein Ffurflen Gwynion dylech gyfeirio at y canllawiau sydd wedi'u cynnwys gyda'r ffurflen a disgrifio'r gŵyn mor glir a chryno â phosib.

**Nid oes angen i chi anfon unrhyw ddogfennau atom ni ar hyn o bryd.**

## A oes unrhyw derfynau amser ar gyfer cwyno i SDA?

Oes. Rhaid i ni dderbyn eich Ffurflen Gwynion SDA wedi'i lofnodi o fewn 12 mis o ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau; fel arall bydd yn rhy hwyr i ymdrin â'ch cwyn. Fel arfer, bydd y cyfnod o 12 mis yn dechrau o ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau. Er enghraifft, os yw eich Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau wedi'i ddyddio 7 Medi, rhaid i ni dderbyn eich Ffurflen Gwynion SDA erbyn 7 Medi'r flwyddyn ganlynol.

Er bod gennych chi 12 mis o ddyddiad y Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, fel arfer mae'n well cwyno ynghynt. Mae hyn oherwydd y gall y datrysiadau y gallwn ni eu hargymell fod yn gyfyngedig os ydych chi'n aros am flwyddyn cyn cwyno i ni.

## A yw'n costio unrhyw beth i wneud cwyn?

Nac ydy. Ni chodir tâl am gwyno i ni.

# Beth sy'n digwydd ar ôl i mi anfon fy Ffurflen Gwynion atoch chi?

Byddwn yn cydnabod derbyn eich cwyn ac yn penderfynu a yw'r gŵyn yn un y gallwn ei hadolygu o dan Reolau'r Cynllun. Gall myfyrwyr a darparwyr addysg uwch ofyn i ni ailystyried ein penderfyniad i adolygu, neu i beidio adolygu, eu cwyn (neu rannau ohoni) drwy ysgrifennu atom o fewn 14 diwrnod i'r penderfyniad. Bydd adolygydd gwahanol yn ailystyried y penderfyniad ac yn dweud wrthych chi a'r darparydd addysg uwch beth yw'r canlyniad. Am ragor o wybodaeth am yr hyn y gallwn ei ystyried a'r hyn na allwn ei ystyried dan ein Rheolau, ewch i'n gwefan.

Os ydym ni'n derbyn eich cwyn yn dilyn y cam cychwynnol hwn, mae'r opsiynau canlynol ar gael i'r sawl fydd yn ymdrin â'r achos:

- Ceisio setlo'r gŵyn neu weithredu fel canolwr
- Gofyn i'r darparydd am ei sylwadau ar y gŵyn
- Gofyn i'r darparydd neu i chi am fwy o wybodaeth
- Cyflwyno Deilliant Cwyn parthed y gŵyn
- Cysylltu â chi i drafod eich cwyn ac a yw'r datrysiad rydych chi am i weld yn rhywbeth y gellir ei gyflawni
- Anfon gwybodaeth atoch chi am eich sylwadau

Byddwch yn derbyn gwybodaeth bellach am y broses adolygu unwaith y bydd eich cwyn yn ein cyrraedd. Mae arweiniad pellach i'n proses adolygu hefyd i'w weld yn ein taflen, Beth sy'n Digwydd Nesaf.

# Sut mae SDA yn adolygu cwynion?

Mae gennym ddisgresiwn o ran penderfynu sut y bydd yr adolygiad yn symud ymlaen a pha wybodaeth sydd ei hangen. Bydd y sawl sy'n ymdrin â'r achos yn ystyried, yn ystod pob cam, a ellir o bosib setlo'r gŵyn. Setlo yw datrysiad anffurfiol o gŵyn a gyflwynir i ni Mae hyn yn golygu bod y gŵyn yn cael ei datrys heb yr angen am adolygiad llawn.

Mae ein staff sy'n gyfrifol am ymdrin ag achosion yn casglu gwybodaeth a thystiolaeth hyd nes byddant yn fodlon bod ganddynt yr holl ddeunydd sydd ei angen arnynt i wneud penderfyniad ar y gŵyn unigol.

Pan fyddwn yn gofyn am wybodaeth gennych chi, peidiwch ag anfon dogfennau gwreiddiol, gan na allwn fod yn gyfrifol am ddogfennau a gollir yn y post, ac ni fyddwn fel rheol yn dychwelyd dogfennau i chi ar ddiwedd ein hadolygiad.

# Faint o amser fydd yn ei gymryd i ystyried fy nghwyn?

Unwaith y bydd yr holl wybodaeth berthnasol yn ein meddiant, bydd y sawl sy'n ymdrin â'r achos yn ysgrifennu atoch chi a'r darparydd i ddweud bod y ffeil yn gyflawn. Byddwn fel arfer yn cwblhau ein hadolygiad o fewn 90 diwrnod o dderbyn y ffeil gwynion yn ei chyfanrwydd. Os ydym yn credu bod y gŵyn yn eithriadol o gymhleth, yna gall hyn gymryd mwy o amser.

Mae pob cwyn yn unigryw. Serch hynny, nid yw bob amser yn bosib darparu datrysiad cyflym, a gall rhai cwynion cymwys gymryd chwe mis neu fwy i'w datrys os yw'n cymryd amser hir i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol neu os yw'r achos yn eithriadol o gymhleth.

Mae ein Rheolau yn golygu bod gwrandawiad llafar yn opsiwn; fodd bynnag, credwn nad yw hyn fel arfer yn angenrheidiol. Os yw'r sawl sy'n ymdrin â'r achos yn ystyried y gallai fod angen cynnal gwrandawiad neu fod myfyriwr yn gofyn am wrandawiad, bydd yr aelod staff hwnnw'n cyfeirio'r gŵyn at eu rheolwr.

# Beth allwch chi ei wneud am fy nghwyn?

Ein rôl yw "adolygu" penderfyniad terfynol y darparydd, ac ni fyddwn fel arfer yn cynnal ail ymchwiliad i'r gŵyn. Rydym yn penderfynu a oes Cyfiawnhad, Rhywfaint o Gyfiawnhad neu Ddim Cyfiawnhad am eich cwyn am y darparydd sydd heb ei ddatrys. Rydym yn ystyried a yw'r darparydd wedi gweithredu ei reoliadau yn gywir ac wedi dilyn ei weithdrefnau ei hun, ac a oedd unrhyw benderfyniad a wnaed gan y darparydd yn rhesymol o dan yr holl amgylchiadau.

Os ydym yn penderfynu bod Cyfiawnhad neu Rywfaint o Gyfiawnhad am y gŵyn, gallwn wneud Argymhellion. Er enghraifft, efallai y byddwn yn gofyn i'r darparydd adolygu neu newid ei weithdrefnau neu reoliadau; adolygu neu newid y ffordd mae'n ymdrin ag apeliadau a/neu gwynion; cynnig iawndal; neu'n ailystyried yr apêl/cwyn. Yn yr achosion hyn, byddwn yn gofyn i chi a'r darparydd wneud sylwadau ar ymarferoldeb yr Argymhellion a osodir allan yn nogfen Deilliant y Gŵyn cyn llunio'r fersiwn derfynol. Rydych chi'n rhydd i dderbyn Argymhellion mewn setliad llawn a therfynol, neu i wrthod ein Hargymhellion.

Os ydym yn penderfynu bod Cyfiawnhad neu Rywfaint o Gyfiawnhad am gŵyn, byddwn fel arfer yn ceisio eich gosod yn ôl yn y sefyllfa y byddech ynddi, be bai amgylchiadau'r gŵyn heb ddigwydd. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn bob amser yn bosib nac yn briodol, ac mewn achosion o'r fath gallwn ddyfarnu iawndal neu ryw ddatrysiad arall. Nid rheoleiddiwr mo SDA ac ni allwn gosbi na dirwyo darparwyr.

Fel arfer, mae darparwyr yn cydymffurfio â'n Hargymhellion drwy wneud cynnig "mewn setliad llawn a therfynol o'r gŵyn". Mae hyn yn golygu, os byddwch chi'n derbyn y cynnig, na fyddech yn gallu dwyn achos llys yn erbyn y darparydd am yr un materion. Nid yw cyflwyno cwyn i ni yn eich atal rhag dwyn achos cyfreithiol yn erbyn y darparydd addysg uwch os ydych chi'n anfodlon â chanlyniad ein hadolygiad. Ni allwn eich cynghori ynghylch unrhyw gamau gweithredu amgen y gallech chi eu cymryd. Os ydym yn penderfynu Nad Oes Cyfiawnhad am gŵyn, mae'n dal i fod yn bosib y byddwn yn gwneud argymhellion o ran arfer da a/neu sylwadau i'r darparydd eu hystyried.

# A oes rhaid i ddarparydd gydymffurfio â'ch penderfyniad?

Disgwylir i ddarparwyr gydymffurfio'n llawn â phenderfyniadau SDA ac unrhyw Argymhellion. Yn ein profiad ni, mae cydymffurfiad â'n Hargymhellion gan ddarparwyr yn ardderchog. Byddwn yn cymryd unrhyw amharodrwydd i gydymffurfio o ddifrif; caiff ei adrodd yn ôl i'n Bwrdd a'i gyhoeddi yn ein Hadroddiad Blynyddol. Nid oes rhaid i chi dderbyn ein penderfyniad neu'n Hargymhellion.

# A allaf dynnu fy nghwyn yn ôl?

Gallwch. Efallai y bydd amgylchiadau lle byddwch chi'n dewis tynnu eich cwyn yn ôl. Gallwch wneud hynny ar unrhyw adeg yn ystod y broses adolygu, fodd bynnag, bydd angen i chi roi gwybod i ni cynted â phosib.

# A allaf gael help i wneud cwyn?

Os oes angen help neu gyngor arnoch i wneud cwyn, gallwch siarad â'ch corff cynrychioli myfyrwyr (undeb, cymdeithas neu urdd y myfyrwyr), neu eich swyddfa Cyngor ar Bopeth (CAB) leol.

Gallwn ddarparu ein llenyddiaeth mewn sawl gwahanol fformat. Cysylltwch â ni os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â hyn neu ein proses gwynion ar enquiries@oiahe.org.uk neu 0118 959 9813.

Rydyn ni'n cynnal Cynllun annibynnol ac ni allwn roi cyngor i chi ar sut i ddilyn eich cwyn.

# Beth os ydw i'n anfodlon â'r ffordd mae fy nghwyn wedi cael ei drin?

Beth bynnag fo deilliant eich achos, rydym yn gobeithio y byddwch yn fodlon â lefel y gwasanaeth rydym yn ei ddarparu. Serch hynny, os oes gennych chi unrhyw bryderon, dylech gyfeirio at ein gwefan am wybodaeth bellach.

office of the independent adjudicator

'for students in higher education'

**Office of the Independent Adjudicator for Higher Education**


Second Floor, Abbey Wharf
57-75 Kings Road
Reading
Berkshire
RG1 3AB

0118 959 9813

enquiries@oiahe.org.uk

@oiahe

Office of the Independent Adjudicator



Rhif Cofrestru'r Cwmni: 04823842 rhif

Cofrestru'r Elusen: 1141289

Ionawr 2019